# Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol
# Cwestiynau Cyffredin

## 1. Faint o wyliau blynyddol allaf brynu?

Gallwch ddewis prynu naill ai 5 neu 10 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol. Cyfrifir hyn pro rata ar gyfer cyflogeion rhan amser ac fe'i cyfrifir yn ôl oriau.

Bydd angen i chi ofyn am awdurdodiad gan eich rheolwr llinell i brynu 5 neu 10 diwrnod (gwnaed diwygiad ar gyfer 2021/2022). Byddant yn ystyried ceisiadau yn dibynnu ar ofynion y swydd, er mwyn darparu gwasanaethau'n weithredol ac yn effeithiol.

## 2. Sut ydw i'n talu am yr absenoldeb ychwanegol rwyf wedi'i brynu?

Caiff taliadau eu didynnu o'ch tâl misol mewn rhandaliadau cyfartal a fydd yn dod i ben erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Os ydych ar gontract dros dro neu dros gyfnod penodol, caiff y taliadau eu gwneud mewn rhandaliadau cyfartal, dros y lleiaf o'r rhain: y misoedd sy'n weddill o'ch contract *neu* erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

## 3. Faint fydd y gost?

Bydd eich cyflog yn cael ei leihau yn ôl gwerth y nifer o ddyddiau a brynwyd wedi'i luosi â'r gyfradd ddyddiol neu fesul awr y cewch eich talu ar ddyddiad dechrau'r cynllun (e.e. 1 Ebrill).

Gweler yr enghreifftiau ar ddiwedd y ddogfen hon am ragor o wybodaeth. <u>Canllawiau yn unig yw'r rhain.</u> Ni allwn gadarnhau'r union swm a ddidynnir nes bydd cais yn cael ei brosesu.

## 4. Beth yw'r effaith ar fy mhensiwn?

Bydd unrhyw wyliau blynyddol ychwanegol yr ydych wedi'u prynu yn cael eu dosbarthu fel 'absenoldeb awdurdodedig heb dâl'. Felly nid yw cyfraniadau pensiwn yn cael eu talu'n awtomatig.

Gallwch ddewis prynu'r pensiwn 'coll' drwy Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol. Mae'r swm hwn i'w dalu fel cyfandaliad.

Gweler https/www.lgpsmember.org/more/apc/index.php am fwy o wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfrifiannell a ffurflen i'w lawrlwytho, ei harwyddo a'i hanfon at Wasanaethau'r Gweithwyr - Tîm y Gyflogres.

## 5. Sut mae gwneud cais i brynu gwyliau blynyddol?

Cwblhewch y ffurflen gais a'i rhoi i'ch rheolwr llinell i'w harwyddo (i brynu 5 diwrnod o wyliau blynyddol) neu i'w hystyried (i brynu 10 diwrnod o wyliau blynyddol) cyn y dyddiad cau.

## 6. Rwy'n gweithio'n rhan amser, sut mae hyn yn berthnasol i mi?

Bydd yr holl hawliau y sonnir amdanynt yn berthnasol i chi ar sail pro-rata. Mae hyn yn cynnwys os ydych yn gweithio wythnos gywasgedig o 37 awr dros 4 diwrnod.

Os ydych yn gweithio 18.5 awr yr wythnos, yna gallwch wneud cais i brynu gwyliau blynyddol 18.5 awr (sy'n cyfateb i 5 diwrnod ar gyfer gweithiwr llawn amser) neu i brynu 37 awr o wyliau blynyddol (sy'n cyfateb i 10 diwrnod ar gyfer gweithiwr llawn amser).

## 7. Mae gen i flwyddyn wyliau pen-blwydd, oes modd i mi brynu gwyliau blynyddol o hyd?

Oes. Trwy wneud cais i brynu gwyliau blynyddol fodd bynnag, rydych yn cytuno i newid eich blwyddyn gwyliau blynyddol i 01 Ebrill i 31 Mawrth. Bydd eich hawl gwyliau blynyddol presennol yn cael ei gyfrif ar sail pro rata i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y blynyddoedd o wyliau.

Er enghraifft, os yw eich blwyddyn wyliau yn rhedeg o fis Hydref i fis Medi ac os oes gennych hawl o 25 diwrnod, byddai eich hawl o fis Hydref i fis Mawrth (mis pen-blwydd hyd at ddiwedd cyfnod absenoldeb y flwyddyn ariannol) yn cael ei chyfrifo.

25 diwrnod o wyliau ÷ 12 mis (blwyddyn lawn) = 2.083 diwrnod o wyliau fesul mis.

2.083 diwrnod o wyliau'r mis x 6 mis (Hydref i Fawrth) = 12.5 diwrnod.

Byddech yn didynnu unrhyw wyliau blynyddol yr ydych wedi eu cymryd o'r 12.5 diwrnod hyn. Os oes unrhyw beth yn weddill, caiff ei ychwanegu at y gwyliau blynyddol yr ydych wedi'u prynu (5 neu 10 diwrnod) ac ychwanegu at yr hawl newydd o 25 diwrnod ar gyfer eich blwyddyn wyliau newydd, sef Ebrill i Fawrth.

**8. Beth sy'n digwydd os byddaf yn newid fy meddwl ar ôl i'm cais i brynu gwyliau blynyddol gael ei gymeradwyo?**

Unwaith y bydd cais wedi'i dderbyn, mae'n gytundeb rhwymol ac ni ellir ei newid.

**9. A fydd fy slip cyflog yn edrych yn wahanol?**

Bydd y didyniad misol yn dangos ar yr ochr talu yn erbyn prynu gwyliau blynyddol.

**10. A fyddaf yn cael llythyr?**

Cewch, byddwch yn derbyn llythyr sy'n amlinellu'r symiau a hyd y didyniad misol. Unwaith y mae'r didyniadau misol wedi'u cwblhau, bydd eich cyflog gros yn dychwelyd yn ôl i'r ffordd yr oedd cyn y cynllun (gydag unrhyw ddyfarniad cyflog neu ddilyniant cyflog sy'n berthnasol).

**11. Sut gallaf gymryd yr absenoldeb hwn?**

Bydd unrhyw wyliau blynyddol a brynir yn cael eu hychwanegu at eich balans gwyliau blynyddol a rhaid eu defnyddio cyn unrhyw wyliau blynyddol eraill. Mae'r broses gymeradwyo arferol ar gyfer gwneud cais a chymryd absenoldeb yn gymwys.

**12. Beth os wyf wedi prynu gwyliau blynyddol ychwanegol ac yna byddaf yn mynd ar absenoldeb mamolaeth neu'n sâl yn hir-dymor?**

Bydd yr absenoldeb a brynir drwy'r cynllun yn cael ei drin yn yr un modd â hawl gwyliau blynyddol cytundebol.

**13. Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael dyrchafiad a bod fy ngradd yn newid drwy gydol y flwyddyn?**

Bydd eich ad-daliadau yn aros yr un fath waeth beth fo unrhyw newidiadau i'ch cyflog neu drefniadau cytundebol.

**14. Beth sy'n digwydd os byddaf yn cynyddu neu'n gostwng fy oriau cytundebol drwy gydol y flwyddyn?**

Bydd eich ad-daliadau yn aros yr un fath waeth beth fo unrhyw newidiadau i'ch cyflog neu drefniadau cytundebol.

**15. Beth os byddaf yn gadael cyflogaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg?**

Bydd unrhyw gostau sy'n weddill yn cael eu hadennill yn llawn o'ch taliad cyflog terfynol.

**16. Beth sy'n digwydd os nad wyf wedi cymryd fy holl wyliau blynyddol a'r gwyliau blynyddol ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn wyliau?**

Bydd y trefniadau arferol ar gyfer cario gwyliau blynyddol yn gymwys h.y. uchafswm o 10 diwrnod o wyliau blynyddol y gellir eu cario drosodd.

## Cyfrifiadau prynu gwyliau blynyddol enghreifftiol

Gellir dod o hyd i bwyntiau'r golofn gyflog, y cyflog blynyddol a chyfraddau fesul awr ar StaffNet.

### 17. Enghraifft – Cyflogai amser llawn (37 awr dros 5 diwrnod yr wythnos)

Cyflogai A

- Mae Cyflogai A wedi'i gontractio i weithio 37 awr yr wythnos dros 5 diwrnod. Maent yn ennill £20,253 y flwyddyn (gradd F, pwynt y golofn gyflog 22). Mae hyn yn £10.50 yr awr.

  Mae Cyflogai A yn gymwys i brynu 5 diwrnod o wyliau blynyddol (37 awr) o fis Ebrill.

  £10.50 x 37 awr = **amcangost o £389**

  Didyniadau = £389 dros 12 mis o ad-dalu = amcangost o £32.50 fel ad-daliad pob mis.

  Rhowch eich manylion ar www.lgps2014.org/content/how-do-i-buy-extra-or-lost-pension am ragor o wybodaeth am bensiwn coll.

- Pe bai Cyflogai A yn gwneud cais i brynu 10 diwrnod o wyliau blynyddol (74 awr) o fis Ebrill:

  £10.50 x 74 awr = **amcangost o £777**

  Didyniadau = £777 dros 12 mis ad-dalu = amcangost o £65 fel ad-daliad pob mis.

  Rhowch eich manylion ar www.lgps2014.org/content/how-do-i-buy-extra-or-lost-pension am ragor o wybodaeth am bensiwn coll.

### 18. Enghraifft – Cyflogai rhan-amser (llai na 37 awr yr wythnos neu'r rhai sy'n gweithio oriau cywasgedig).

Cyflogai B

- Mae Cyflogai B wedi'i gontractio i weithio 22.5 awr yr wythnos dros 3 diwrnod. Maent yn ennill £12,316 pro rata’r flwyddyn (sy'n gyfwerth â £20,253 o amser llawn) (gradd F, pwynt y golofn gyflog 22). Mae hyn yn £10.50 yr awr.

  Mae Cyflogai B yn gymwys i brynu 22.5 awr o wyliau blynyddol (sy'n cyfateb i un wythnos waith) o fis Ebrill.

  £10.50 x 22.5 awr = **amcangost o £236**

  Didyniadau = £236 dros 12 mis ad-dalu = amcangost o £20 fel ad-daliad pob mis.

  Rhowch eich manylion ar www.lgps2014.org/content/how-do-i-buy-extra-or-lost-pension am ragor o wybodaeth am bensiwn coll.